# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 20 Medi 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Dewi Owens, Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Barbara Smith

Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Archwilio (RhE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RH)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Geraint Lloyd-Williams a/ac Peter Owen

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim buddiannau i'w datgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012-17

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (PCBPh) adroddiad a oedd wedi ei gylchredeg yn flaenorol. Dywedodd fod datblygiad Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012 - 2017 wedi dechrau cyn yr etholiad eleni felly roedd yn arbennig o bwysig ymgysylltu â'r Cyngor newydd a'r cynghorwyr newydd. Fe atgoffaodd y PCBPh y pwyllgor bod set drafft o flaenoriaethau corfforaethol wedi eu cytuno gan aelodau ar Orffennaf 31, 2012.

Dywedodd y PCBPh fod swyddogion wedi ystyried y camau a'r strategaeth ariannol 5 mlynedd a oedd eu hangen i gynnal cyflenwad y blaenoriaethau. Ychwanegodd fod yr aliniad amlwg o'r blaenoriaethau corfforaethol a strategaeth ariannol ategol o fewn y Cynllun Corfforaethol yn ddull gweithredu arwyddocaol ac arloesol a dim ond ychydig yn unig o awdurdodau lleol oedd wedi gallu ei wneud.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol at y strategaeth ariannol a'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir o £134 miliwn yr oeddid yn credu y dylid ei fuddsoddi dros 5 mlynedd y Cynllun. Dywedodd ei fod yn disgwyl y byddai £5 o gyllid refeniw ychwanegol yn cael ei symud i gynnal y blaenoriaethau, a hynny'n gadael llai o arian ar gael ar gyfer meysydd nad oedden nhw wedi'u nodi'n flaenoriaeth.

Atebodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol ymholiadau drwy amlinellu y byddai blynyddoedd cynnar y Cynllun yn gweld gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gweithgareddau a fyddai'n cyflenwi'r blaenoriaethau a byddai gwario gwirioneddol yn dod i uchafbwynt ym mlynyddoedd 3 a 4 gyda chyflenwi'r gweithgareddau a gynlluniwyd. Cadarnhaodd y PCBPh y byddid yn cynhyrchu dogfen gyflenwi flynyddol bob blwyddyn ariannol yn darparu manylion penodedig yr hyn y disgwylid ei gyflenwi'r flwyddyn honno.

Ymholodd y Cynghorydd Colin Hughes ba mor hylaw fyddai craffu 7 o flaenoriaethau corfforaethol, gan nodi mai dim ond 4 oedd i'r cynllun blaenorol. Fe'i hysbyswyd y byddai angen i gynghorwyr a'r swyddogion perthnasol ddod â'r mesurau perfformiad i ben a'r trefniadau monitro ac adrodd a fyddid yn eu defnyddio, ond y byddai'r profiad a gafwyd o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol blaenorol yn golygu system well a symlach yn gyffredinol. Fe gydnabu'r PCBPh fod yna angen o hyd i ddiffinio rhai o'r blaenoriaethau a'r canlyniadau'n well.

Fe drafododd y Pwyllgor y materion canlynol hefyd:

- Cytundeb i gyfeirio yn y Cynllun Corfforaethol at wireddu rhai manteision y Cynllun yn dilyn tymor y Cyngor yma a'r Cynllun Corfforaethol yma
- Cydnabyddiaeth y dylid datblygu'r cynlluniau trefol newydd ymhellach mewn ymgynghoriad â chynghorwyr a chymunedau lleol
- Byddai ymgysylltu effeithiol â phreswylwyr ynglŷn â nodau ac effaith y Cynllun Corfforaethol yn hanfodol
- Cytunodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol i archwilio'r wybodaeth ariannol yn y Cynllun drafft i sicrhau ei bod yn gyson.
- Cytundeb i ddiwygio geiriad y Tai Gofal Ychwanegol i adlewyrchu nod i ddatblygu hyd at 3 o unedau Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych.
- Gofynnodd y Cynghorydd Dewi Owens am gopi o gynllun busnes Mentrau Cefndy
- Fe ddylai fod yna raddfa amser i'r canlyniad sy'n ymwneud ag addasu cartrefi i gyfarfod ag anghenion preswylwyr anabl ac fe ddylai fod wedi ei ddiffinio'n gliriach
- Roedd angen eglurder pellach ar y blaenoriaethau ynghylch moderneiddio'r Cyngor a datblygu'r economi'n arbennig o ran gweithgareddau a mesurau perfformiad
- Dylid craffu'r geiriad a ddefnyddir yn y Cynllun i ddisgrifio nodau a chanlyniadau i gynorthwyo cyfathrebu a rheoli disgwyliadau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys "rydyn ni'n credu y gallwn ni" i'w newid i "rydyn ni'n rhagweld" etc.
- Cytundeb y dylid anfon unrhyw sylwadau gan aelodau ar Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun Corfforaethol a roddir ger bron yn y cyfarfod yn syth at y Rheolwr Gwella Corfforaethol

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar y materion a gytunwyd uchod, argymell drafft y Cynllun Corfforaethol 2012 i'w gymeradwyo gan y Cyngor*